# Tymor y Gwanwyn 2022 – Meithrin a Derbyn

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

## Bant â ni i gynllunio!




**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

Y Tri Bili Bwch Gafr-32

Pedr a'r Blaidd - 2

Rydym yn gallu gwrando ar y bêl yn bownsio i fyny ac i lawr.

Hallie

Rydw i eisiau creu drwm.

Elis. B

Rwy'n hoffi gwrando ar storiau.

Cadi

Rwy'n hoffi synau uchel.

Ava

Rwy'n gallu gwneud llawer o sŵn gyda fy nwylo.

Addiena.

Mae anifeiliaid yn gwneud synau gwahanol.

Florence

Rwy'n hoffi gwrando ar gerddoriaeth.

Harriet.

Y tywydd.

Albee

Rydyn ni'n clywed llawer o synau ar y buarth.


Elenid

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN

# Tymor y Gwanwyn 2022 – Meithrin a Derbyn



Syniad mawr y tymor hwn:

## Mi ddyweda i ti stori a rhigwm…

Dyma rhai o'n syniadau;

*Bwriad y cywaith yma yw cynnig profiadau dilys a chyfleoedd i'r disgyblion arwain dysgu eu hun er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr a dinasyddion gwybodus sy'n ymhyfrydu yn nhreftadaeth Cymru, a'i straeon a chaneuon traddodiadol.*

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau.
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau .
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno.
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol.

**Y Dyniaethau**

- Dechrau gofyn cwestiynau syml a chynnig atebion posibl .
- Bod yn chwilfrydig am fy ardal leol.
- Cyfleu fy arsylwadau a canfyddiadau mewn ffordd syml.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dylunio a chreu offeryn gan ddefnyddio amryiaeth o ddefnyddiau.
- Defnyddio offer yn ddiogel i adeiladu a dadadeiladu.
- Trafod a dosbarthu deunyddiau amrywiol.
- Cynnal ymchwiliadau sain syml.
- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadol yn ddiogel
- Dilyn cyfres o gyfarwyddiadau.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**

[www.yggbrynymor.co.uk](http://www.yggbrynymor.co.uk)

**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Iechyd a Lles**

- Datblygu rheolaeth ar symudiadau echddygol bras ac echddygol manwl gan symud yn ddiogel.
- Canolbwyntio ein sylw wrth wrando ar berfformiadau.
- Archwilio ein teimladau trwy wrando ac ymateb i gerddoriaeth.
- Deall y gall cerddoriaeth gael effaith ar ein teimladau.
- Datblygu ein hyder trwy berfformio i eraill.
- Deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Gwrando ar a dysgu hwyangerddi a chaneuon traddodiadol.
- Mwynhau streon traddodiadol, dysgu a'i llefaru ar ffurff Pie Corbett.
- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau gwrando a chanolbwyntio
- Dysgu geirfa, a chaneuon sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu.
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol.
- Dechrau defnyddio patrymau iaith Cymraeg cyfarwydd.
- Creu cornel chwarae rôl dyffryn 'Y Tr Bili Bwch Gafr'

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mynd ar daith gwrando o gwmpas yr ysgol.
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd, gan ganolbwyntio ar hwyangerddi traddodiadol.
- Archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o offerynnau.
- Bod yn rhan o gynulleidfa wrth wrando ar ystod o gerddoriaeth.
- Archwilio syniadau a theimladau wrth wrando ar wahanol gerddoriaeth.
- Mynegi barn ar gwaith creadigol ein hun a gwaith creadigol pobl eraill.
- Creu darn o gerddoriaeth creadiol ein hun.
- Perfformio o flaen cynulleidfa.
- Gerthuso ein perfformiad.